Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 24 Medi 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(149)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor**

NDM5308 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu'r Sector Bwyd yng Nghymru (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Arfer Gorau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad ar Ymweliadau'r Haf ag Awdurdodau Lleol (30 munud)**

**6 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas ag adennill meddiant o dai annedd (15 munud)**

NDM5248 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2013.

I weld copi o'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona ewch i:

http://services.parliament.uk/bills/2013-14/antisocialbehaviourcrimeandpolicingbill/documents.html

**Dogfennau Ategol**
Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau yn ymwneud ag adennill meddiant tai annedd

**7 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau, gorchmynion ymddygiad troseddol a'r trothwy cymunedol (15 munud)**

NDM5253 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona sy'n ymwneud â gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau, gorchmynion ymddygiad troseddol a'r trothwy cymunedol, i'r graddau y

maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:

Dogfennau'r Bil - Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2013-14 - Gwefan Senedd y DU

**Dogfennau Ategol**
Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau yn ymwneud â gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau, gorchmynion ymddygiad troseddol a'r trothwy cymunedol

**8 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Fframwaith ar gyfer rheolaethau ar gyllid cyfalaf a geir yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Gwnstabliaid yng Nghymru (15 munud)**

NDM5254 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona sy'n cymhwyso'r fframwaith rheolaethau cyllid cyfalaf yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Gwnstabliaid yng Nghymru i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:

Dogfennau'r Bil - Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2013-14 - Gwefan Senedd y DU

**Dogfennau Ategol**
Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau yn ymwneud â rheolaethau ariannol ar brif gwnstabliaid yng Nghymru

**9 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â chyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau a diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 (15 munud)**

NDM5249 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona sy'n ymwneud â chyflwyno Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau, a diwygio Deddf Cwn Peryglus 1991, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Medi 2013.

I weld copi o'r Bil ewch i:

Dogfennau'r Bil - Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2013-14 - Gwefan Senedd y DU

**Dogfennau Ategol**
Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau amddiffyn cymunedol, gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus, hysbysiadau cau a diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991

**10 Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)**

NDM5300 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru).

Gosodwyd y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 29 Ebril 2013.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 19 Gorffennaf 2013.

Dogfennau Ategol
Y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**11 Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (5 munud)**

NDM5301 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 25 Medi 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Medi 2013 i'w hateb ar 24 Medi 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnal a chadw cefnffyrdd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1223(FM)

2. Aled Roberts (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru dros y tair blynedd nesaf? OAQ(4)1212(FM)W

3. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd yr Uned Gyflawni? OAQ(4)1211(FM)

4. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r meysydd y bydd yr Uned Gyflawni yn eu gwerthuso y tymor hwn? OAQ(4)1218(FM)

5. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weinyddiaeth Cynllun y Fargen Werdd yng Nghymru? OAQ(4)1206(FM)

6. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd? OAQ(4)1216(FM)

7. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardal Fenter Caerdydd? OAQ(4)1221(FM)

8. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter, yn enwedig y rheini yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1220(FM)

9. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi terfyn ar ddefnyddio cwmnïau adeiladu sy'n cynnal cosbrestri? OAQ(4)1210(FM)

10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Cynllunio? OAQ(4)1217(FM)

11. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn ag ail adroddiad Comisiwn Silk? OAQ(4)1219(FM)W

12. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyngor caffael? OAQ(4)1207(FM)

13. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i atal elusennau rhag cael eu gwahardd rhag ymgyrchu ar faterion sy'n bwysig iddynt? OAQ(4)1214(FM)

14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd aros y GIG yn nhymor nesaf y Cynulliad? OAQ(4)1205(FM)

15. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder dros egwyl yr haf? OAQ(4)1222(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 1 Hydref a dydd Mercher 2 Hydref 2013

Dydd Mawrth 8 Hydref a dydd Mercher 9 Hydref 2013

Dydd Mawrth 15 Hydref a dydd Mercher 16 Hydref 2013

*********************************************************************

Dydd Mawrth 1 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol: Gweithio Rhanbarthol (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Lansio'r Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardrethi Busnes (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Eiddo Deallusol (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) (90 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.
  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:
  Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Teithio Llesol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 2 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 22 mewn perthynas â Safonau Ymddygiad (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 29 a 30A mewn perthynas â Chydsyniad Deddfwriaethol i Offerynau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU a Biliau Preifat (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud) – Gohiriwyd

**Dydd Mawrth 8 Hydref 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cyllideb Ddrafft 2014-15 (30 munud)
- Dadl ar Dalu Costau Tai yn Uniongyrchol i Denantiaid yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Penderfyniad Ariannol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (30 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 9 Hydref 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Eluned Parrott (Canol De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 15 Hydref 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: System Trafnidiaeth Integredig De Ddwyrain Cymru (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: “Gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru - Adolygiad Cymru 2012-13” (60 munuid)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13 (60 munud)

Dydd Mercher 16 Hydref 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ymchwiliad i weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol (60 munud)
- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Llythrennedd Ariannol (Bethan Jenkins) (60 munud)
- Dadl Fer – Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)